


Proffil Cymunedol – Y Barri

At ddibenion yr Asesiad Llesiant ac i gael dealltwriaeth well o'n cymunedau ym Mro Morgannwg rydym wedi rhannu'r ardal yn dair cymuned, y Barri, Gorllewin y Fro a Dwyrain y Fro. Mae'r proffiliau cymunedol hyn wedi'u datblygu i gyd-fynd â phroffil Bro Morgannwg a byddwn yn parhau i wella'r proffiliau hyn fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r proffil yn dod ag ystod o wybodaeth am yr ardal ynghyd gan gynnwys data poblogaeth, manylion projectau ac asedau o fewn y gymuned; nid cyfeiriadur o wasanaethau mohono ond proffil sy'n rhoi peth gwybodaeth allweddol am yr ardal.

Pwrpas y proffil cymunedol hwn yw rhoi gwybodaeth o safbwynt ystadegau allweddol a phrojectau yn yr ardal ac i dynnu sylw at y llu o asedau sydd ym Mro Morgannwg, gan amrywio o asedau naturiol, grwpiau cymunedol a gwasanaethau. Y bwriad yw y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i wella proffiliau cymunedol Bro Morgannwg a phob un o'r tair ardal gymunedol, y Barri, Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro. Bydd hyn yn cynnwys canfyddiadau allweddol o'r asesiad i'r gymuned a lle bo hynny'n bosibl nodi'r bylchau a meysydd lle dylid eu gwella. Croesewir adborth ar y proffiliau fel y gellir parhau i'w datblygu fel adnodd gwerthfawr i'r ardal a sail dystiolaeth ar gyfer gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r proffil cymunedol hwn yn canolbwyntio ar ardal y Barri fel y nodir yn y map isod, ac mae'r ardal yn cynnwys y wardiau canlynol:

- Dyfan
- Gibbonsdown
- Y Cwrt
- Cadoc
- Illtyd
- Buttrills
- Baruc
- Castleland



Data poblogaeth ac ystadegau allweddol ar gyfer yr ardal

Noder – Mae'r data yn y tabl canlynol yn seiliedig ar ffigurau Cyfrifiad 2011 oni nodir yn wahanol. Felly, gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd mewn manau eraill.

Mae'r tabl canlynol yn darparu cymhariaeth **rhwng** ein hardaloedd cymunedol o safbwynt amrywiaeth o ystadegau allweddol.

	Y Barri	Dwyrain y Fro	Gorllewin y Fro	Bro Morgannwg	Cymru
Demograffeg a Deinameg					
Poblogaeth Breswyl (Mehefin 2015)	52,200	36,800	38,500	127,500	3,099,086
Arwynebedd (Hectar)	1,845	3,542	27,699	33,095	2,073,511
Dwysedd y boblogaeth (nifer y bobl fesul hectar)	27.8	10.3	1.4	3.8	1.5
% Poblogaeth 0-15 oed	20.5	17.4	18	18.9	18.2
% Poblogaeth 16-24 oed	11.2	9.2	10.8	10.5	12.2
% Poblogaeth 16-64 oed	64.3	61.4	62.4	62.9	63.5
% Poblogaeth 65+ oed	15.2	21.2	19.6	18.3	18.4
% Poblogaeth 3+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg	11.1	10.5	10.8	10.8	19
% Poblogaeth y mae eu gweithgareddau dyddiol wedi'u cyfyngu	22.4	20.1	17.7	20.3	22.7
Cyflogaeth					
% Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith	3.6	1	1.4	2.2	2.8
% Poblogaeth sy'n Gyflogedig mewn Galwedigaethau Proffesiynol	12	24.6	20.3	18.3	15.8
Daliadaeth (Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% gan fod dewisiadau daliadaeth eraill ar gael)					
Nifer yr Aelwydydd	22,167	15,833	15,505	53,505	1,302,676
% Yn berchen llwyr	26.9	40.1	42.9	35.8	33.4
% Yn berchen gyda morgais / benthyciad	36.9	36.2	37.3	36.8	32
% Rhent Cymdeithasol - Awdurdod Lleol	11.5	4.7	4.7	7.5	9.9


	Y Barri	Dwyrain y Fro	Gorllewin y Fro	Bro Morgannwg	Cymru
% Rhent Cymdeithasol - Arall	7.1	3.8	1	4.4	6.7
% Rhent Preifat	14.8	12.2	10	12.7	12.7
Cyfansoddiad Aelwydydd					
% Aelwydydd Pensiynwyr Sengl	12.2	15.3	12.4	13.2	13.7
% Aelwydydd Rhieni Sengl	14.5	9.4	8.5	7.5	7.5
Cyfleusterau Aelwydydd					
% Aelwydydd heb Fynediad at Gar neu Fan	27	17.4	10.6	19.4	22.9
% Aelwydydd heb Wres Canolog	1.9	2	1.1	1.7	2.3

Yn ogystal â gwahaniaethau rhwng ein cymunedau, mae gwahaniaethau hefyd yn bodoli **oddi mewn** iddynt. Gellir defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 i ddangos hyn. Dengys y tabl canlynol safle pob ACEHI sy'n cynnwys ardal Gymunedol y Barri ar draws pob un o'r meysydd sy'n rhan o'r mynegai.


MALIC 2014 - Safle'r ACEHI, lle mai 1 yw'r ACEHI Mwyaf Amddifad, a 1909 yw'r ACEHI Lleiaf Amddifad.

Enw ACEHI	MALIC 2014	Incwm	Cyflogaeth	Iechyd	Addysg	Mynediad at wasanaethau	Diogelwch Cymunedol	Amgylchedd Ffisegol	Tai
Baruc 1	1551	1271	1271	1711	1588	619	932	1763	1751
Baruc 2	1763	1826	1696	1787	1835	473	1347	1870	1689
Baruc 3	653	557	642	816	756	472	318	1472	1168
Baruc 4	1206	1331	1022	1082	1431	1183	213	1349	434
Buttrills 1	764	776	778	551	864	1883	403	393	376
Buttrills 2	198	222	107	169	327	1634	188	803	990
Buttrills 3	760	633	905	775	776	1761	291	251	566
Buttrills 4	546	255	779	428	662	1500	359	1118	932
Cadoc 1	236	239	191	364	384	767	548	59	1448
Cadoc 2	782	822	994	866	679	736	1140	66	836
Cadoc 3	321	312	374	499	347	1836	47	139	399
Cadoc 4	178	217	184	325	335	819	44	121	186
Cadoc 5	575	603	734	620	623	692	608	69	922
Cadoc 6	1697	1494	1652	1624	1439	1339	998	629	1797
Castleland 1	181	207	159	239	322	561	275	134	654
Y Cwrt 1	359	385	469	272	447	1269	268	114	404
Y Cwrt 2	454	344	527	653	379	1772	319	246	664
Y Cwrt 3	169	140	206	128	199	1619	185	409	441
Dyfan 1	1811	1713	1606	1412	1381	1865	1537	1781	1709
Dyfan 2	727	562	710	608	735	1251	358	1397	1240
Dyfan 3	497	503	429	341	498	1373	425	840	1044
Gibbonsdown 1	312	163	385	598	180	1348	400	996	532
Gibbonsdown 2	83	52	158	129	54	1402	147	818	172
Gibbonsdown 3	823	873	770	902	471	1817	610	530	615
Gibbonsdown 4	235	121	369	399	117	1264	330	1721	584
Illtyd 1	1818	1730	1601	1389	1539	1763	1365	1650	1909
Illtyd 2	809	488	789	710	606	1683	1208	1391	1212
Illtyd 3	1866	1643	1724	1756	1677	1504	1734	1620	1857
Illtyd 4	880	716	746	798	1063	1734	245	1321	732
Illtyd 5	929	620	977	717	997	1872	184	1300	1535
Illtyd 6	1872	1660	1716	1864	1660	1838	1187	1577	1724
Castleland 2G	346	364	510	309	461	1136	29	367	349
Castleland 2H	306	252	383	545	341	531	697	91	518

WIMD 2014 – MALIC




WIMD 2014 – Incwm




- 10% most deprived - Ranks 1 to 191
- 11%-20% most deprived - Ranks 192 to 382
- 21%-30% most deprived - Ranks 383 to 573
- 31%-50% most deprived - Ranks 574 to 955
- 50% least deprived - Ranks 956 to 1,909

WIMD 2014 - Cyflogaeth




© Crown Copyright. Licence number 100043376


WIMD 2014 – Iechyd



WIMD 2014 – Addysg




WIMD 2014 – Mynediad at wasanaethau



- 10% most deprived - Ranks 1 to 191
- 11%-20% most deprived - Ranks 192 to 382
- 21%-30% most deprived - Ranks 383 to 573
- 31%-50% most deprived - Ranks 574 to 955
- 50% least deprived - Ranks 956 to 1,909

© Crown Copyright. Licence number 100043376


WIMD 2014 – Diogelwch Cymunedol



- 10% most deprived - Ranks 1 to 191
- 11%-20% most deprived - Ranks 192 to 382
- 21%-30% most deprived - Ranks 383 to 573
- 31%-50% most deprived - Ranks 574 to 955
- 50% least deprived - Ranks 956 to 1,909


© Crown Copyright. Licence number 100043376

WIMD 2014 – Amgylchedd Ffisegol



- 10% most deprived - Ranks 1 to 191
- 11%-20% most deprived - Ranks 192 to 382
- 21%-30% most deprived - Ranks 383 to 573
- 31%-50% most deprived - Ranks 574 to 955
- 50% least deprived - Ranks 956 to 1,909

WIMD 2014 – Tai



Yr ardal leol

Mae gan bob ardal o Fro Morgannwg ei chyngor cymuned ei hun; ar gyfer y Barri, Cyngor Tre'r Barri yw hwn, sef y Cyngor Tref mwyaf yng Nghymru. Ceir ystod o gyfleusterau cymunedol a diwylliannol yn y Barri, gan gynnwys Canolfan Celfyddydau Memo sydd yn lleoliad celfyddydau amlbwrpas bywiog a chyffrous gyda sinema ac Oriel Gelf Ganolog sydd wedi'i lleoli yn Neuadd y Dref, y Barri.

Hefyd mae cysylltiadau rheilffordd da i Gaerdydd a'r rhanbarth, gyda phedair gorsaf yn y dref ac Ynys y Barri. Mae adfywio'r dref ac Ynys y Barri wedi gwella cyfleoedd, tai a'r amgylchedd lleol yn sylweddol, ac mae wedi helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr i'r Ynys a phresenoldeb yn y nifer o ddigwyddiadau a gynhelir yn y gyrchfan nawr.

Mae'r Barri yn elwa o gael ysbyty cymunedol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd, gan gynnwys: Cleifion Allanol, Mân Anafiadau, Radioleg, Wardiau Adsefydlu, Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hŷn (MHSOP) Wardiau, Therapiau, Deintyddol, Meddyg Teulu a Gwasanaethau Allan o Oriau.

Coleg Caerdydd a'r Fro yw un o'r colegau mwyaf yn y wlad ac mae wedi ei leoli yn y Barri ers dros 50 mlynedd – gan gefnogi unigolion, cyflogwyr a'r gymuned ar draws y sir. Mae'r campws yn Heol Colcot yn cynnwys cyfleusterau addysgu ar gyfer ystod eang o gyrsgiau, yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer y gymuned.

Mae cyfleusterau ac amwynderau eraill yn yr ardal yn cynnwys:

- 7 Practis Meddyg Teulu
- 1 Gorsaf Heddlu
- 1 Gorsaf Dân
- 1 Llyfrgell
- 12 Canolfan Gymunedol
- 8 Parc
- 21 o Ysgolion
- 8 Safle Rhandir
- 2 Fanc Bwyd
- 1 Ganolfan Ailgylchu
- 2 Fynwent

Nodweddion/Projectau Allweddol yn yr ardal

Mae nifer o brojectau ar waith mewn partneriaeth a chyda'r gymuned leol sydd yn rhai penodol i'r Barri. Mae'r rhain yn cynnwys:

Mae **Cymunedau yn Gyntaf** yn rhaglen gymunedol 'Trechu Tlodi' gan Lywodraeth Cymru. Nod y rhaglen oedd lleddfu tlodi parhaus ac, yn y Barri, mae wedi gweithredu mewn rhannau o wardiau Buttrills, Cadog, Castleland, Court a Gibbonsdown. Roedd ariannu ar gyfer 2016/17 yn £580,912.02 ond ym mis Chwefror 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei ddirwyn i ben ac y byddai cyllid 2017/18 gyfwerth â 70% o gyllid y flwyddyn flaenorol. Bydd cyfleoedd i gyrchu cyllid trwy gronfa etifeddol a chronfa adnoddau fel cydnabyddiaeth o'r angen i gynnal y gwaith da a wnaed trwy Cymunedau yn Gyntaf ond ar hyn o bryd mae dyfodol projectau'r Barri wedi mis Mawrth 2018 yn ansicr.

Ariennir **Dechrau'n Deg** gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfleoedd bywyd plant dan 4 oed yn yr ardaloedd lle mae'n gweithredu. Mae'n cynnwys pedair elfen graidd – gofal plant o ansawdd am ddim, cefnogaeth i rieni, cefnogaeth ymwelydd iechyd dwys, a chefnogaeth ar gyfer llythrennedd yn y blynyddoedd cynnar. Cyllideb 2017-18 yw £2,562,000. Mae'r rhaglen yn targedu teuluoedd mewn ardaloedd cod post penodol yn y Barri yn y wardiau canlynol: Buttrills, Castleland, Cadog, Court, Illtyd a Gibbonsdown.

Gardd Gymunedol ac Ardal Natur Cemetery Approach – Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar ardd gymunedol ac ardal natur newydd yn Cemetery Approach yn y Barri. Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2017 fydd yn golygu y byddwn yn adeiladu parc newydd ac adeilad cymunedol newydd ar dir bob ochr i Cemetery Road yn y Barri. Cyngor Bro Morgannwg sydd berchen y tir ar hyn o bryd, fodd bynnag, unwaith y caiff y gwaith ei gwblhau caiff ei roi ar brydles i Gyngor Tre'r Barri fydd yn cymryd yr awenau dros reoli a chynnal y parc newydd. Caiff y cynllun £550,000 ei ariannu ar y cyd gan y ddau gyngor.

Mae gan **Grŵp Ymgynghorol Adfywio'r Barri** wybodaeth a phrofiad ym maes adfywio i hyrwyddo arfer da, cydraddoldeb ac arloesedd ac i roi cyngor ac argymhellion annibynnol. Mae'r Barri wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i weithgaredd adfywio, yn amrywio, ymhlith pethau eraill, o welliannau i Heol Holton ac adnewyddu tai yn Castleland at adfywiad parhaus yn Ynys y Barri. Ochr yn ochr â


hyn, dechreuwyd ar y cam nesaf o ailddatblygu hen ardal y Doc a fydd yn cyflenwi ysgol, tai, manwerthu newydd a ffordd gysylltu i'r ynys yn ei sgil, sy'n arwydd o fomentwm parhaus.

Rhaglen Fuddsoddi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid 2014 - 2017 yw Rhaglen Llywodraeth Cymru sydd wedi buddsoddi £1 filiwn yn y Barri dros 3 blynedd. Mae cyllid o'r Gronfa Trechu Tlodi wedi helpu i gyflwyno projectau adfywio yn y Barri. Cefnogir y projectau canlynol y gan fuddsoddiad y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector:

- Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, Hwb Trydydd Sector
- [Gwelliannau Ardal Chwarae George Street](#) (Saesneg yn Unig)
- [Rhaglen Grant Heol Holton](#) (Saesneg yn Unig)
- Rhaglen Grant y Stryd Fawr
- Gwelliannau Gerddi Fictoria
- Mesurau Lleihau Tlodi Tanwydd
- [Gwelliannau Ardal Chwarae Dryden Terrace a Meggitt Road](#) (Saesneg yn Unig)
- [Gwelliannau Ardal Chwarae Hatch Quarry](#) (Saesneg yn Unig)
- YMCA y Barri, Partneriaeth Ieuenctid y Trydydd Sector a Chaffi Rhyngrwyd Cymunedol

Beth rydym wedi ei ddysgu trwy ein hymgysylltiad

Trwy ein hymgysylltu dysgom fod pobl yn falch o'r Barri ond y carent weld gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a glendid yn y dref. Roedd y rhain yn themâu cyffredin ledled Bro Morgannwg. Yn gyffredinol mae pobl y Barri yn fodlon â lle maen nhw'n byw, fel y gellir gweld isod, a thema gyson ddaeth i'r amlwg trwy ein hymgysylltu oedd bod pobl yn y Barri yn teimlo ysbryd cymunedol cryf.



Er hyn, yn y Barri roedd cyfran uwch o bobl a oedd yn anghytuno eu bod yn perthyn i'r ardal, gyda 30 (13.2%) oedd yn "tueddu i anghytuno" a 14 (6.1%) oedd yn "anghytuno'n gryf" wrth gymharu'r canlyniadau ag ardaloedd eraill yn y Fro.

Fel rhan o'n hymgysylltiad gofynnwyd hefyd i bobl mewn ystod o ddigwyddiadau i gwblhau cardiau post. Cwblhaodd 81 o drigolion y Barri y cardiau post. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'beth sy'n dda am ble rydych chi'n byw?' yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd rhai am drafnidiaeth ac agosrwydd at siopau a chyfleusterau. Nododd ymatebwyr hefyd barciau, tawelwch a mwynderau. Roedd hon hefyd yn ardal y Fro lle cafwyd y mwyafrif o atebion nad oedd dim byd yn dda am yr ardal. Gofynnwyd hefyd i bobl beth allai fod yn well am yr ardal ac yn ardal y Barri, a'r materion mwyaf cyffredin a godwyd oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol, parcio a thrafnidiaeth, a glendid a sbwriel.

Roedd y cwestiwn olaf a ofynnwyd yn ymwneud â pha wasanaethau oedd yn bwysig ar gyfer iechyd a llesiant, a'r atebion mwyaf cyffredin gan drigolion y Barri oedd mynediad at gyfleusterau hamdden ac apwyntiadau meddygon teulu a gwasanaethau iechyd. Roedd llawer o'r atebion a roddwyd i'r cwestiynau hyn yn gyson ar draws Bro Morgannwg a cheir mwy o wybodaeth yn yr adroddiad ymgysylltu ar wahân, 'Amser Siarad am y Fro'.

Wrth i ni barhau i ymgysylltu â'r gymuned leol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein hamcanion a chynllun llesiant, byddwn yn awyddus i ymchwilio yn fanylach i'r hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi am eu hardal leol, a beth fyddai'n gwella eu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.